
# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Drafft



**Rydym yn barod iawn i ddarparu'r ddogfen hon mewn print bras, sain, braille ac Iaith Arwyddion Prydain.**

**This document is also available in English**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Strategaeth Toiledau Cyhoeddus - Conwy**

1. Cyflwyniad ........ 2
2. Pam bod angen Strategaeth? ........ 2
3. Sut mae'r Strategaeth hon yn cysylltu â chynlluniau eraill ........ 3
4. Sefyllfa bresennol ........ 3
5. Sut ydym yn bwriadu bodloni anghenion yn y dyfodol ........ 5
6. Cymeradwyo ac adolygu ........ 6

## 1. Cyflwyniad

Nid yw darparu toiledau cyhoeddus yn swyddogaeth statudol y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r ddemograffeg yng Nghonwy a'r mewnlifiad o ymwelwyr bob blwyddyn yn gwneud toiledau cyhoeddus yn bwysig i'r economi leol, gan alluogi pobl i fwynhau'r atyniadau a busnesau yn yr ardal. Mae argaeledd toiledau cyhoeddus mewn ardaloedd hamdden poblogaidd yn annog pobl i ymarfer corff ac aros yn actif yn gorfforol, sydd â manteision clir i iechyd a lles.

Mae Conwy yn gartref i 118,200 o breswylwyr, gyda 29% yn 65 oed a hŷn a 2% yn 2 oed neu iau. Ar hyn o bryd mae 48 o doiledau cyhoeddus a reolir gan y Cyngor a 3 o doiledau cyhoeddus a redir gan gynghorau tref a chymuned, sy'n cynnwys 41 o doiledau anabl a 22 o gyfleusterau newid babis.

Mae toiledau cyhoeddus yng Nghonwy wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig (33%) ac arfordirol (67%). Mae mwy na 80,000 o gwsmeriaid yn defnyddio'r toiledau cyhoeddus yng Nghonwy bob blwyddyn, sy'n dangos y galw am y gwasanaeth hwn.

Nod y strategaeth hon yw adolygu darpariaeth o doiledau cyhoeddus yng Nghonwy er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau mewn ffordd sy'n gynaliadwy gyda'r pwysau ariannol presennol ac yn y dyfodol, wrth fodloni anghenion preswylwyr ac ymwelwyr i Gonwy. Mewn cyfnod o bwysau ariannol ar gyfer Awdurdodau Lleol, rhaid i ni wneud penderfyniadau a all effeithio ar y gwasanaeth toiledau cyhoeddus. Bydd y penderfyniadau hyn yn cynnwys adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol ac ymgynghoriad gyda'r cyhoedd.

## 2. Pam bod angen Strategaeth?

Pasiwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 gan Lywodraeth Cymru yn 2017 ac mae'n rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â darpariaethau presennol o doiledau cyhoeddus a sut fydd yr angen yn cael ei fodloni yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gymryd safbwynt strategol ar sut ellir darparu toiledau cyhoeddus a chael mynediad atynt, gan ystyried ystod o ddewisiadau i wneud y cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

Nid yw’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu na chynnal toiledau cyhoeddus eu hunain. Mae’n ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus trwy ddarpariaeth uniongyrchol neu weithio gyda busnesau preifat i wneud cyfleusterau ar gael i’r cyhoedd.

## 3. Sut mae’r Strategaeth hon yn cysylltu â chynlluniau eraill

### Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Mae Rhan 8 o’r Ddeddf hon - Gwella a Diogelu Iechyd - yn amlinellu dyletswydd y Cyngor i ddarparu strategaethau lleol sy’n mynd i’r afael â’r ddarpariaeth bresennol o doiledau cyhoeddus a sut fyddwn yn bodloni’r angen am doiledau, gan gynnwys cyfleusterau newid babis a gofodau newid ar gyfer oedolion.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy, gan weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy osod a chyhoeddi amcanion lles a chymryd camau rhesymol i gwrdd â’r amcanion hynny.

### Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2013-2028

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ar gyfer yr ardal leol yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

### Cynllun Corfforaethol 2022 - 2027

Mae’r cynllun 5 mlynedd hwn yn amlinellu prif flaenoriaethau’r Cyngor i gefnogi anghenion y dinasyddion sy’n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Bwrdeistref Sirol Conwy, gan gyfrannu tuag at ddarparu Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

### Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus adolygu a chyhoeddi eu hamcanion cydraddoldeb a'u Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ar ôl ystyried data perthnasol ac ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pob un o'r nodweddion gwarchodedig.

## 4. Sefyllfa bresennol

Ar hyn o bryd mae 48 o doiledau cyhoeddus a reolir gan y Cyngor a 3 o doiledau cyhoeddus a redir gan gynghorau tref a chymuned, sy’n cynnwys 41 o doiledau anabl a 22 o gyfleusterau newid babis.

Yn ystod yr haf mae toiledau cyhoeddus yng Nghonwy yn agor yn ddyddiol rhwng 7-10am ac yn cau rhwng 7-9pm. Yn ystod y gaeaf maent yn agor rhwng 7:30-10am ac yn cau rhwng 4:30-5:30pm. Mae’r toiledau’n cael eu cloi tu allan i’r oriau hyn er diogelwch.

Mae 2 o doiledau cyhoeddus yn cael eu staffio yn ystod oriau agor, ac mae'r rhain ym Metws y Coed a Llandudno. Mae'r cyfleusterau hyn yn cael eu glanhau gan y staff yno yn ystod yr oriau agor, mae'r holl doiledau cyhoeddus eraill yn cael eu glanhau ddwywaith y dydd.

**Ymgynghoriad**

Cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus yn 2019 i ganfod y prif feysydd o ganolbwynt ar gyfer y strategaeth hon. Roedd yr arolwg yn holi cwestiynau am y ffordd roedd pobl yn defnyddio toiledau cyhoeddus, beth oedd yn bwysig am leoliad toiledau cyhoeddus, sut oeddent yn teimlo am dalu i ddefnyddio toiledau cyhoeddus ac ar y cyfan, beth oedd eu barn am doiledau cyhoeddus yng Nghonwy.

Cafwyd 501 o ymatebion i'r arolwg gyda 78% yn dweud eu bod yn defnyddio toiledau cyhoeddus yn rheolaidd, roedd y rhai a ddywedodd nad oeddent yn eu defnyddio yn dweud mai glanweithdra a chyflwr oedd y prif resymau dros hyn.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo fod llai na 5 munud yn amser derbyniol i gerdded neu yrru i ddefnyddio toiled cyhoeddus. Roedd y lleoliadau a ffafriwyd ar gyfer toiledau cyhoeddus wedi'u rhannu'n deg rhwng agos at ardaloedd siopa, ger atyniadau twristiaeth ac ar draethau poblogaidd.

Dywedodd 54% o ymatebwyr y byddent yn hapus i dalu er mwn defnyddio toiledau cyhoeddus. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn barod i dalu, y byddent yn talu 30c, dywedodd 10% y byddent yn talu 50c, dywedodd 1% y byddent yn talu £1 a dywedodd yr ymatebwyr eraill y byddent yn talu 20c neu 10c.

Pan ofynnwyd am y cynllun toiledau cymunedol dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr (55%) nad oeddent yn ymwybodol o'r cynllun. O'r rhai nad oedd yn ymwybodol o'r cynllun, dywedodd 57% nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio cyfleusterau heb ddefnyddio gwasanaethau'r busnes.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (93%) yn teimlo y gallai mwy gael ei wneud i gyfathrebu lleoliadau toiledau cyhoeddus, gyda'r awgrymiadau pennaf yn cynnwys arwyddion lleol gwell ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Pan ofynnwyd a oeddent yn teimlo bod digon o leoedd newid a newid babis ar gael yng Nghonwy er mwyn gallu mwynhau diwrnod allan gyda ffrindiau a theulu, nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr (81%) yn teimlo bod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd ar y cwestiwn hwn yn ymwneud â dim digon o gyfleusterau toiledau (26%), glanweithdra'r toiledau (20%), ymatebwyr eisiau mwy o gyfleusterau newid babis (17%), mwy o gyfleusterau toiledau hygyrch (11%) a mwy o lefydd newid (10%).

Mae adroddiad crynhoi ar ganlyniadau'r arolwg yn Atodiad 1.

Mae lleoliadau holl doiledau cyhoeddus a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a lleoliadau busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun toiledau cymunedol wedi'u dangos ar fap ar wefan y Cyngor: Toiledau Cyhoeddus - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## 5. Sut ydym yn bwriadu bodloni anghenion yn y dyfodol

Gyda llai o gyllid ar gael ar gyfer darparu'r gwasanaeth o 2023/24 byddwn yn chwilio am ffyrdd o barhau i ddarparu toiledau cyhoeddus yng Nghonwy ar sail cost niwtral.

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- Archwilio cyfleoedd i drosglwyddo cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus i gynghorau tref a chymuned. Bydd hyn yn galluogi i gyfleuster aros ar agor yn hytrach na gorfod cau.

- Cydweithio i wneud y cyfleusterau mewn adeiladau presennol y Cyngor ar gael i'r cyhoedd. Mae'r safleoedd hyn wedi'u lleoli o amgylch Conwy ac yn cynnwys canolfannau hamdden, canolfannau ymwelwyr, neuaddau tref, theatrau a llyfrgelloedd.

- Ymgysylltu gyda busnesau lleol a'u hannog i wneud eu cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

- Adolygu'r Cynllun Toiledau Cymunedol gyda'r golwg o wella ansawdd ac ystod y cyfleusterau sydd ar gael gan fusnesau sydd wedi cofrestru ar y cynllun.

- Adolygu'r trefniadau codi tâl presennol ac ystyried mwy o gyfleusterau â thâl lle bo'n briodol.

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyllid grant er mwyn gwella'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yng Nghonwy.

- Annog y defnydd o logo toiledau cyhoeddus cenedlaethol ymhob safle lle mae toiledau ar gael ar gyfer y cyhoedd.

Byddwn yn blaenoriaethu buddsoddiad i'r gwasanaeth yn seiliedig ar yr ystyriaethau canlynol a gyda chanolbwynt ar wella ansawdd y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus:

- Lefel o gyllid sydd ar gael
- Y cyfleusterau a ddarperir, megis darpariaeth anabl, cyfleusterau newid
- Hanes o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu fandaliaeth
- Nifer yr ymwelwyr yn yr ardal
- Agosatrwydd at gyfleusterau eraill

### Ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth

Yn anffodus mae toiledau cyhoeddus yn aml yn darged ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth. Rydym yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn a cheisio cadw'r cyfleusterau ar agor. Fodd bynnag, bydd fandaliaeth barhaus yn arwain at gau toiledau cyhoeddus os nad ellir fforddio atgyweiriadau.

Mae'r gyllideb bresennol ar gyfer toiledau cyhoeddus yng Nghonwy yn annigonol er mwyn uwchraddio'r cyfleusterau presennol, a chaiff ei ddefnyddio'n bennaf er mwyn talu am

lanhau, cynnal a chadw hanfodol ac atgyweiriadau/cynnal a chadw ymatebol yn dilyn fandaliaeth, sydd eu hangen er mwyn cadw'r cyfleusterau ar agor.

## 6. Cymeradwyo ac adolygu

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bydd y Strategaeth hon yn cael ei chyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ar gyfer ei chymeradwyo.

Byddwn yn cyhoeddi'r strategaeth ar wefan y Cyngor unwaith y caiff ei chymeradwyo.

Byddwn yn paratoi adroddiad cynnydd dros dro 2 flynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth hon.

Bydd adolygiad llawn o Strategaeth Toiledau Conwy ar ôl pob etholiad Llywodraeth Leol.